# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 5ED MAWRTH, 2019**

Lleoliad

**Neuadd Dyfi, Aberdyfi, LL35 0NR**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286 679665**

**sionmareduddowen@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 26/2/19)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Dewi Owen
Anne Lloyd Jones
Mike Stevens

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Councillor Bob Tyrrell | Cyngor Cymuned Aberdyfi |
| Nick Dawson | Aelod o Outward Bound Wales |
| David Williams | Aelod o Bwyllgor Gwelliannau Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Cynghorydd Brian Bates | Aelod o Gymdeithas Cenedlaethol y Bad Achub |
| Guy Shaw | Aelod o Glwb Rhwyfo Aberdyfi |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Cynghorydd Rob Triggs | Cyngor Tref Abermaw |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 7

I dderbyn a chadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgr Harbwr a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2018.

**4. ADRODDIAD GAN Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG** 8 - 16

I dderbyn adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**5. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi yn debygol o gael ei gynnal ar 12 Tachwedd 2019.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2018 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

YN BRESENNOL

Y Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Bob Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Brian Bates (Bad Achub), Mr Al Crisp (Outward Bound), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi)

**Sylwedyddion:** Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)

Cyng Rob Triggs (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Llyr Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned) |
| Arthur F. Jones | - | Uwch Swyddog Harbyrau |
| Bryn P. Jones | - | Swyddog Morwrol Traethau |
| William Stockford | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Siôn Owen | - | Swyddog Cefnogi Aelodau |
| Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, Mr Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2018-19.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn ar gyfer 2018-19.**

**DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd **c**ofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 22 Mawrth 2018.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

**4. DIOGELWCH HARBWR**

Cyflwynwyd yr eitem gan yr Uwch Swyddog Harbyrau, gan nodi ei fod yn gyfle i'r Pwyllgor nodi unrhyw faterion diogelwch harbwr neu sylwadau ar y Cod Diogelwch Harbwr.

Nodwyd fod y Cod wedi bod yn destun trafodaeth, a bod y Clwb Hwylio wedi cynnal trafodaethau anffurfiol buddiol gyda'r swyddogion harbyrau ynglŷn â materion diogelwch. Ychwanegwyd fod

Aberdyfi wedi bod yn brysur dros yr haf, ond na brofwyd unrhyw ddamweiniau na phroblemau diogelwch neilltuol.

**5. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**(a) Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Harbyrau ei adroddiad, gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Fod y niferoedd o gychod ar yr angorfeydd wedi gostwng ychydig yn 2018, ond bod y ffigwr yn gymharol sefydlog.
- Fod y nifer o gwsmeriaid wedi gostwng ar draws harbyrau Gwynedd, oedd yn adlewyrchiad o'r hinsawdd economaidd.
- Fod 53 o gychod pŵer wedi eu cofrestru yn Aberdyfi yn 2018, yr un nifer a 2017. Gwelwyd cynnydd yn niferoedd y cychod pŵer oedd wedi eu cofrestru yn Nhywyn o 9 i 14.
- Fod y nifer o fadau dwr personol wedi cynyddu ar draws harbyrau Gwynedd, gyda chynnydd o 28 i 50 yn Aberdyfi ac o 3 i 6 yn Nhywyn.
- Pwysleisiwyd fod croeso i aelodau'r Pwyllgor i drafod y Cod Diogelwch Harbwr gyda'r gwasanaeth.
- Fod haf 2018 wedi bod yn gyfnod prysur iawn, ond trist nodi fod yr achosion o drais yn erbyn swyddogion wedi cynyddu.
- 'Roedd y gwasanaeth yn gobeithio cyflogi cymhorthydd harbwr llawn amser ychwanegol ar gyfer harbyrau Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw, yn ddibynnol ar y gyllideb oedd ar gael.
- 'Roedd disgwyl i ffioedd harbyrau godi gyda chwyddiant yn 2019, gan ragweld tanwariant bychan ar gyllideb yr harbyrau.

Cwestiynau a sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd siom fod disgwyl i ffioedd cychod pŵer godi
- Fod y man lansio ar gyfer cychod pŵer yn anghyfleus ac yn fwdlyd iawn, ac y byddai'n fuddiol pe bai posib defnyddio llithrfa arall.
- Pryder fod lefel preswylydd yr angorfeydd wedi gostwng, ac a oedd peryg fod Harbwr Aberdyfi yn cael ei adael ar ôl?

Mewn ymateb nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau

- Mai'r man lansio presennol ar gyfer cychod pŵer oedd y man mwyaf diogel. Tra'r oedd yn cydnabod ei fod yn safle anghyfleus, 'roedd yn safle diogel ac nid oedd arian ar gael i'w wella.
- Fod lefel preswyledd angorfeydd wedi gostwng ar draws y Deyrnas Unedig, nododd mai Harbwr Abermaw oedd wedi gweld y gostyngiad mwyaf yng Ngwynedd. 'Roedd defnyddwyr angorfeydd yn tueddu i symud i harbyrau ble'r oedd cyfleusterau gwell. 'Roedd yn bosib ystyried gwella cyfleusterau Harbwr Aberdyfi, ond byddai angen bod yn ofalus rhag niweidio ei gymeriad.

**(b) Adroddiad yr Harbwrfeistr**

Cyflwynodd yr Harbwrfeistr ei adroddiad gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Fod Harbwr Aberdyfi wedi cael archwiliad gan Dy'r Drindod ar drefniadau diogelwch a mordwyo, gan ganfod fod y trefniadau priodol mewn lle.
- Fod cwrs sianel fordwyo Harbwr Aberdyfi wedi culhau a symud i'r gogledd. 'Roedd hyn wedi achosi llawer o waith addasu er mwyn cynorthwyo a sicrhau diogelwch mordwyo. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwr er mwyn cael gwybodaeth gyfredol am ddiogelwch mordwyo.
- Fod gwaith cynnal a chadw wedi ei wneud, a gofynnodd am sylwadau ar raglen waith cynnal a chadw ar gyfer gaeaf 2018-19.
- Fod arwyddion diogelwch wedi eu gosod yn Nhywyn ac Aberdyfi yn dilyn adolygiad manwl ar y cyd gyda'r RNLI.

- Fod cyflwr y llwyfan cerdded pren bellach yn rhy ddrwg i'w drwsio a bod ei ddyfodol yn ansicr yn yr hinsawdd gyllidebol ariannol gyfredol. Tra bod mesurau mewn lle dros dro i warchod y twyni, byddai'r gwasanaeth yn ystyried pob opsiwn posib i warchod y llwybr i'r dyfodol.
- Fod y gwasanaeth yn parhau i aros i bersonau oedd ag eitemau ar y tir comin/storio i'w gwaredu. Tra bod hyn yn siom, 'roedd canfod fod aelodau eraill o'r cyhoedd yn parhau i waredu deunyddiau gwastraffa r y safle yn siom bellach. Byddai gwaith i wella'r safle yn cael ei wneud yn fuan yn 2019.
- Fod gwaith tacluso wedi ei wneud ar y cei, gyda'r bwriad o glirio offer segur oddi yno. Byddai mwy o offer a chewyll pysgota yn cael eu symud o'r cei yn y dyfodol.
- Fod gwaith wedi ei wneud ar adnabod perchnogion cynwysyddion sydd wedi eu gosod yn ardal yr harbwr yn dilyn codi pryderon am eu cyflwr.
- Fod cyflwr y bont dros y Rheilffordd sy'n rhoi mynediad i Fryn Llestair wedi dirywio nes bod angen ei chau. 'Roedd y gwasanaeth yn aros am adroddiad strwythurol ar ei chyflwr cyn penderfynu ar ei dyfodol.
- Diolchodd am y cynigion o gymorth oedd wedi ei dderbyn er mwyn ceisio datrys y problemau oedd wedi codi o gwmpas yr harbwr.

Sylwadau a chwestiynau yn codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i staff yr harbwr am eu gwaith dros haf prysur.
- Oedd yno broblemau mordwyo wedi codi oherwydd y newid yn llwybr y sianel?
- Canmolwyd yr arwyddion diogelwch a osodwyd ar y cyd gyda'r RNLI. Awgrymwyd cynnwys gwybodaeth am lanw terfol ar yr arwyddion er mwyn amlygu'r peryglon i nofwyr.
- Ei fod yn synhwyrol tynnu'r arwyddion dros gyfnod y gaeaf er mwyn osgoi difrod gan dywydd garw'r gaeaf.
- Ei fod yn bwysig fod y twyni tywod ar y llwybr i'r traeth yn cael eu gwarchod. Pe na bai'n bosib gosod llwyfan cerdded pren newydd byddai peryg i'r bwlch yn y twyni agor ac effeithio ar yr amddiffynfa a gynigwyd gan y twyni rhag y môr.
- Gobaith y byddai'r Tir Comin/Storio yn cael ei glirio a'i ddiogelu yn fuan. Nodwyd fod y Clwb Hwylio yn cynnig helpu i glirio.
- Nodwyd pryder ynglŷn â chyflwr wal y cei gan fod ei gyflwr wedi dirywio ymhellach a'i fod yn helpu i warchod Aberdyfi rhag difrod o'r môr.
- Fod edrychiad y cei yn bwysig, gan fod angen iddo fod yn ddeniadol i ymwelwyr yn ogystal â diogel.
- Fod cau'r bont i Fryn Llestair oherwydd ei chyflwr wedi ei gefnogi gan ddefnyddwyr rheolaidd er bod hynny wedi cael cryn effaith ar weithgareddau Outward Bound Wales.
- Gan fod canolfan Outward Bound Wales yn cael ei hystyried fel ysgol, fyddai'n bosib gosod palmant ar hyd y ffordd gyfagos er mwyn hwyluso mynediad? Ychwanegodd fod risg posib i'r Cyngor pe canfuwyd nad oedd wedi cydymffurfio a'i ddyletswyddau ar gyfer sicrhau mynediad diogel i ysgolion.

Mewn ymateb nododd y swyddogion oedd yn bresennol o'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig:

- Fod llwybr y sianel wedi ei effeithio gan y tywydd sych, oedd wedi lleihau effaith Afon Leri a dychwelyd i'w gwrs naturiol. Ychwanegodd fod natur y bar yn medru gwneud mynediad i'r harbwr yn anodd, ond 'roedd hefyd yn dod yn amlwg nad oedd sgiliau a gwybodaeth rhai perchnogion cychod yn cyrraedd y safon angenrheidiol. Roedd llawer o ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod pob bwi yn y safle cywir.
- Fod angen cael dyfynbris gan gontractwr ar gyfer ailadeiladu llwyfan cerdded pren newydd cyn gwneud penderfyniad terfynol. Ategwyd yr angen i warchod y twyni tywod rhag erydu.
- Nad oedd yn hawdd rheoli mynediad i'r Tir Comin/Storio rhag gwaredu anghyfreithlon, a gofynnodd i unrhyw un oedd a gwybodaeth i gysylltu gyda'r Cyngor neu'r Heddlu.
- Fod yr Harbwrfeistr yn cydweithio'n agos gyda defnyddwyr masnachol yr harbwr er mwyn sicrhau safle diogel a deniadol.

- Roedd dyfodol y Cei yn ddibynnol ar gynllun asedau newydd y Cyngor. ‘Roedd yn cael ei fonitro a’i asesu yn rheolaidd ac ‘roedd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gweithio ar achos busnes i’w ddiogelu fel rhan o’u gwaith atal llifogydd. Nid oedd yn amlwg eto faint fyddai’r gost o wneud y gwaith angenrheidiol, ond pan fyddai’r cyllid ar gael byddai’n bosib symud yn gyflym.
- Byddai tynnu’r bont bresennol i Fryn Llestair a gosod pont newydd yn ei lle yn costio oddeutu £100,000. ‘Roedd trafodaethau wedi eu cynnal gyda Network Rail gan fod y bont yn croesi rheilffordd ‘fyw’ a byddai angen cydweithio’n gyda hwy i gwblhau'r gwaith. ‘Roedd y gwasanaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd y bont i ddefnyddwyr lleol ac ‘roedd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gweithio ar yr asesiad o’r bont.
- Talwyd teyrnged i staff y gwasanaeth dros yr haf am eu gwaith caled dros haf prysur.

**(c) Swyddfa’r Harbwrfeistr**

Nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau nad oedd safle presennol swyddfa’r Harbwrfeistr yn addas gan nad oedd y cyfleusterau yn yr adeilad yn ateb gofynion modern. ‘Roedd ystafell bellach ar gael yng Nghanolfan Dyfi a bwriedid symud swyddfa’r Harbwrfeistr yno. Byddai symud y swyddfa yn golygu gwell cyfleusterau i’r Harbwrfeistr, yn ogystal â gwell golygfa dros yr harbwr a gwell cyfleusterau ar gyfer cynnig cymorth cyntaf pe bai angen.

Mewn ymateb nodwyd byddai symud y swyddfa yn amddifadu busnes lleol o ofod posib mewn ardal ble’r oedd dirfawr angen denu swyddi. Fodd bynnag nodwyd fod swyddfa’r Harbwrfeistr yn fychan, a mynegwyd gobiath y byddai’r Cyngor yn medru creu incwm o’r swyddfa bresennol pan fyddai’r Harbwrfeistr wedi symud oddi yno.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer Mawrth 5 2019 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.10 p.m.

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **5ed Mawrth 2019** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad**

**1.1** Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

**1.2** Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2018 a Mawrth 2019, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Aberdyfi**

**2.1** Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y bydd y contractwr angorfeydd yn dechrau gosod angorfeydd yn yr harbwr dan reolaeth yr Harbwrfeistr tua diwedd mis Mawrth.

Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod faint o gychod fydd yn cael eu lawnsio cyn y Pasg.

**2.2** Mae’n hanfodol bod y contractwr angorfeydd yn cyflwyno Tystysgrif Ansawdd Angorfeydd i'r Harbwrfeistr cyn angori unrhyw gwch. Mae hyn yn ofyniad dan Is-ddeddf yr Harbwr.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

3.1. Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Y nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

3.2 Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.3 Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordrwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

3.4 Fel yr adroddwyd o'r blaen, rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan archwilwyr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod

Diogelwch Morol. Fel dilyniant i'r adolygiad blaenorol, trefnwyd ail ymweliad â Gwynedd yn ystod y cyfnod 4-6ed o Fawrth 2019.

3.5 Mae argraffiad diwygiedig o'r Cod Diogelwch i Harbyrau Gwynedd gan gynnwys y gwelliannau a awgrymwyd gan Arolygwyr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau wedi ei gwblhau. Cwblhawyd archwiliadau Iechyd a Diogelwch i bob harbwr gan gynnwys Harbwr Aberdyfi yn ddiweddar ac mae archwiliad allanol o'r System Rheoli Diogelwch i harbyrau Gwynedd wedi ei drefnu i'w gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2019 gan yr Unigolyn Dynodedig sydd newydd ei benodi, sef Capten M. Forbes.

4. **Materion Staffio**

4.1 Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod blaenorol, mae'r gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gadarnhau bod swydd harbwrfeistr cynorthwyol llawn amser i'w chreu yn Harbwr Aberdyfi, i helpu'r harbwrfeistr gyda'i ddyetswyddau a'i gyfrifoldebau. Bydd hefyd angen i ddeilydd y swydd i weithio yn harbyrau Abermaw a Phorthmadog pan a phryd fo angen. Gwahoddir ceisiadau gan ddarpar ymgeiswyr drwy'r cyfryngau ac wedi cyfweliad, rydym yn gobeithio y bydd gennym ymgeisydd llwyddiannus fydd yn y swydd erbyn Pasg 2019.

**5. Materion Ariannol**

5.1 Bydd crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y chwarter yn cael ei darparu yn y cyfarfod.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod:

- Cynnal a chadw tiroedd
- Cynnal a chadw cwch patrolio'r harbwr
- Offer a chyfarpar er mwyn cynnal a chadw

Ffioedd a Thaliadau 2019/20. Mae manylion ffioedd a thaliadau angorfeydd Aberdyfi am y cyfnod 2019/20 yn amgaeedig.

Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol
Nid yw'r ffioedd lawnsio a chofrestru hyd yma wedi eu cadarnhau ond ni ddisgwylir iddynt fod yn sylweddol wahanol i'r flwyddyn flaenorol.

6.0 **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Abermaw yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a ymgymerwyd ac a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 a Mawrth 2019, yn cynnwys y misoedd hynny, ynghyd â materion cynnal a chadw.

Mae copi o'i adroddiad yn atodol.

*Harbwr Aberdyfi Harbour*
*2019/20*



| Eithrio T.A.W | 2018-19 | | 2019-20 | Prices exclude V.A.T |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr. Pob Cwch | **29.15** | | **30.32** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues. All Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob cwch | **5.25** | | **5.46** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW) | **25.50** | | **26.52** | Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt) |
| | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | **Fel rhestr lansio** | | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain peiriant uchafswm 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | **Fel rhestr lansio** | | **Fel rhestr lansio** | **Small boats engine max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | **5.00** | | **5.00** | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | **8.33** | | **8.33** | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | **26.23** | | **27.28** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | |
| **Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr fesul medr y flwyddyn** | **26.23** | | **27.28** | **Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter per annum** |
| Cychod masnachol yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | **56.36** | | **58.61** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | |
| Storio tymor yr haf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr yr wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi**<br>Storio tymor y gaeaf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm ffi 7 medr** | **6.80**<br><br>**5.82** | | **7.07**<br><br>**6.05** | Summer Storage on Quay or other land **per meter per week or part of week 01 April – 30 September**<br>Winter Storage on Quay or other land **per metre per month or any part of month - 01 October – 31 March – min charge 7 meters.** |
| Rhent Llogi Angorfa Aberdyfi | **259.47** | | **269.85** | Mooring Rental Aberdyfi |
| | | | | |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rheol/Rule 1/18** | | **Rheol/Rule 1/18** | Cancellation of mooring application. Discretionary. |

*Harbwr Aberdyfi Harbour 2019/20*

| Cynnwys T.A.W | | 2019-20 | | Prices include V.A.T |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr. Pob Cwch | | **36.38** | | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues. All Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob cwch | | **6.55** | | Harbour Dues per meter – all vessels |
| Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithriwyd TAW) | | **26.52** | | Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt) |
| | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | | **Fel rhestr lansio** | | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain peiriant uchafswm 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | | **Fel rhestr lansio** | | **Small boats engine max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | | **6.00** | | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | | **10.00** | | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | | **32.74** | | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | |
| **Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr fesul medr y flwyddyn** | | **32.74** | | **Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter per annum** |
| Cychod masnachol yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | | **70.34** | | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | |
| Storio tymor yr haf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr yr wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi**<br>Storio tymor y gaeaf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm ffi 7 medr** | | **8.49**<br><br>**7.26** | | Summer Storage on Quay or other land **per meter per week or part of week 01 April – 30 September**<br>Winter Storage on Quay or other land **per metre per month or any part of month - 01 October – 31 March – min charge 7 meters.** |
| Rhent Llogi Angorfa Cyngor – ffi blwyddyn | | **323.81** | | Council Mooring Rental – annual charge |
| | | | | |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | | **Rheol/Rule 1/18** | | Cancellation of mooring application. Discretionary. |

## Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol
## Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees

## 01/04/2019 – 31/03/2020

**Holl ffioedd yn cynnwys TAW / All fees inclusive of VAT**



| Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach) | 2019/20 | Renewal Fees (Small Permits) |
|---|---|---|
| **Ail-cofrestru Blynyddol** | £35.00 | **Annual Re-registration** |
| **Ceisiadau Llestr Newydd (Trwyddedau Mawr a Bach)** | | **New Vessel Applications (Large and Small Permits)** |
| **Cofrestru Blynyddol** | £45.00 | **Annual Registration** |
| **Ffi Lansio** | | **Launching Fees** |
| **Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol**<br>**Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio)** | £10.00<br>£13.00 | **Daily launch – General Slipways/Beaches**<br>**Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking)** |
| **Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)**<br>**Cynnwys Ffi Cofrestru** | £150.00 | **Annual Launching Permits (1 April – 31 March)**<br>**Inclusive of Registration Fee** |
| **Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.**<br>**In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.** | | |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | **Transfer / Replacement** |
| **Ceisiadau drwy'r post yn unig i Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli** | £45.00 | **Postal application only to the Council Maritime Office in Pwllheli** |
| **Cychod llai na 10 HP (Dim Ffi Lansio)** | | **Vessels under 10 HP (No Launch Fee)** |
| **Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig**<br><br>**Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio** | £30.00 | **Annual Registration Fee – In Person Application Only**<br><br>**At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **5 Mawrth 2019** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W.A. Stockford, Harbwrfeistr Aberdyfi** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 'Rydym yn parhau i gadw golwg ar lwybr y brif sianel fordwyo i harbwr Aberdyfi ac mae'n dal i weld yn mynd i gyfeiriad y gogledd. Caiff llanwau seryddol isel eu darogan yn niwedd Chwefror a dechrau Mawrth, fydd yn rhoi gwell dangosiad o'r fynedfa i'r afon ar draws y bar tywod yng ngheg yr aber. Yn dilyn arolwg o'r sianel, bydd y Gwasanaeth wedyn yn gosod cymhorthion mordwyo mewn lleoliadau addas i hwyluso teithio'n ddiogel ar draws y bar.

1.2 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel dair awr bob ochr i benllanw ac y dylid cysylltu gyda swyddfa'r harbwr cyn cychwyn, i gael yr wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Rybudd Lleol i Forwyr.

1.3 Ar hyn o bryd, mae dau Rybudd Lleol i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.

1.4 Rhybudd i Forwyr rhif 1/18 - Tafod y De Rhif 3 - Nid yw'r cymhorthydd mordwyo starbord ar ei safle priodol ar hyn o bryd, ac mae'n disgwyl cael ei leoli.

1.5 Rhybudd i Forwyr rhif 5/18 nid yw cymhorthydd mordwyo starbord Bwi Bar Rhif 1 ar ei safle priodol. Roedd y bwi wedi dod yn rhydd o'r angorfa mewn gwyntoedd cryfion ac wedi cyrraedd Iwerddon. Gyda chymorth yr Harbwrfeistr yn Wexford, Arklow Marine ac un o drigolion lleol Castletown mae'r bwi bellach wedi ei adfer o draeth Kilpatrick a bydd yn dychwelyd i harbwr Aberdyfi yn nechrau Mawrth. Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i Mr Bartlett, gweithredwr masnachol yn yr harbwr, am ei gymorth gyda hyn.

1.6 Rhybudd i Forwyr rhif 7/18 Bwi Allanol Aberdyfi, nid yw'r golau mordwyo ar y marc Dŵr Diogel yn goleuo. Rydym wedi prynu golau newydd a braced i'r bwi yma a bydd yn cael ei osod cyn gynted â phosib.

1.7 Mae'r Gwasanaeth yn hysbysu y bydd yr holl farciau mordwyo yn eu lle ac yn hollol weithredol cyn gynted â bo hynny'n ymarferol bosib, yn dibynnu ar ymrwymiadau'r contractwr mordwyo ynghyd â'r tywydd presennol ac amodau'r llanw.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 Drwy gydol cyfnod y gaeaf, mae symudiadau cychod yn nynesfeydd yr harbwr a'r sianel wedi bod yn gyfyngedig. Mae Ymddiriedolaeth yr Outward Bound a Chlwb Rhwyfo Aberdyfi wedi parhau i weithredu. Fel arall, mae symudiadau wedi eu cyfyngu i gychod oedd am gael eu storio dros y gaeaf yn iard gychod Ynys Las, cychod pysgota ac ambell gwch dŵr personol.

2.2 Mae'r holl weithgareddau pysgota masnachol wedi peidio gyda'r bwriad o ddechrau gweithio tua diwedd Chwefror.

2.3 Bu'n gyfnod tawel i fad achub Aberdyfi, gyda'r bad ond yn cael ei lawnsio ar gyfer ymarferion hyfforddi.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Gwneir gwaith cynnal a chadw ar angorfeydd ymwelwyr cyn diwedd mis Mawrth i alluogi'r contractwr angorfeydd i'w gosod yn eu lle cyn gwyliau'r Pasg.

3.2 Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud ar 'storfa'r bwiau', gan gynnwys tynnu'r llawr 'mezzanine' i roi mwy o le storio.

3.3 Rheiliau newydd o amgylch bandstand glan y môr Tywyn. Gwaith sylweddol i wella ardal y promenâd canolog. Byddwn yn peintio'r rheiliau pan fydd y tywydd yn gynhesach.

3.4 Arwyddion diogelwch RNLI - Bydd y gwaith o ail-osod arwyddion ar lan y môr yn Nhywyn a gosod arwyddion mwy o amgylch Aberdyfi yn cael ei wneud cyn y Pasg.

3.5 Gwaith cynnal a chadw ar storfeydd cychod harbwr Aberdyfi.

3.6 Trefniadau Gweinyddu yn cynnwys prosesau asesiad risg

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Llwybr Pren y Clwb Golff** Mae dyfodol y llwybr cerdded pren yn parhau yn ansicr ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng y Gwasanaeth a Chlwb Golff Aberdyfi am berchnogaeth a'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r llwybr pren ac mae angen eglurhad ar hyn cyn y gellid gwneud penderfyniad am ei ddyfodol ac unrhyw wariant y gellir ei achosi.

4.2 **Pont Bryn Llestair**. Mae'r sefyllfa gyda'r bont dros y rheilffordd i Fryn Llestair yn parhau fel yr oedd pan adroddwyd ar hyn ddiwethaf. Cynhaliwyd archwiliad a dosbarthwyd manylion hyn i Ymddiriedolaeth yr Outward Bound ac i'r Cyngor Cymuned.

4.3 **Lloc y Pysgotwyr** Rhoddwyd tendr i godi ffens 2m o uchder o amgylch lloc y pysgotwyr i gwmni North Wales Fencing am gost o £8500.00 gyda dyddiad cau i gwblhau'r gwaith ar 20ain Ebrill 2019.

4.3.1 Rhoddwyd cyfarwyddyd i gwmni C & A Asbestos Removal Ltd i dynnu'r gwastraff asbestos a adadwyd yng anghyfreithlon yn y lloc am gost o £580.00 a TAW ynghyd â £40.00 o ran nodyn llwyth gwastraff. Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros i hyn gael ei gwblhau.

4.3.2 Cysylltodd y Gwasanaeth â chwmni sgipiau Aber i dynnu oergelloedd a rhewgelloedd a adawyd yng anghyfreithlon yn y lloc, sydd efallai yn cynnwys nwyon a fedrai fod yn beryglus ynghyd â gwastraff cyffredinol arall. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon rydym yn aros am ateb, fel y gellid bwrw ymlaen gyda'r gwaith uchod.

4.3.3 Cynhaliwyd trafodaethau gyda physgotwyr lleol am osod offer pysgota a chewyll ar ochr y cei. Wedi codi'r ffens a chlirio'r gwastraff o'r lloc, bydd y pysgotwyr yn symud ac yn storio eu cewyll a'u hoffer yn ardal y lloc.

Mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar am y gwaith sydd eisoes wedi dechrau i glirio a thacluso'r lloc gan bysgotwyr lleol a Chlwb Hwylio Dyfi.

4.4 **Parcio Cerbydau ar Ochr y Cei** Er mwyn gwella diogelwch cerddwyr ar ochr y cei drwy cynllun gwahanu traffig, ni chaniateir mynediad i gerbydau ar y cei o'r 1af Ebrill 2019, ac eithrio i ddibenion llwytho neu ddadlwytho offer.

Ni chaniateir i unrhyw gerbyd aros am amser ar ochr y cei heb fod y perchennog yn bresennol. Mae'r cyfyngiad yma yn cynnwys cerbyd a ddefnyddir gan yr harbwrfeistr fydd yn cael ei ad-leoli i ardal wahanol o fewn ffiniau'r harbwr.

4.5 **Cynwysyddion yn yr Harbwr** Mae’r Gwasanaeth wedi ysgrifennu at yr unigolion sydd â chynwysyddion wedi eu lleoli yn yr harbwr i ofyn iddynt eu symud ar unwaith gan fod cyfleusterau'r harbwr yn cael eu hailwampio a'u tacluso.

Bwriedir creu lle parcio ble gellir storio'r cynhwysyddion yma er budd gweithredwyr masnachol pan fyddant yn gweithio yn yr harbwr, ynghyd â'r cerbyd a ddefnyddir gan yr harbwrfeistr.


Mae gan yr Harbwrfeistr y dasg o lunio cynllun o'r ardal fydd yn cynnwys ardal storio amgen.

H5 **Digwyddiadau**

Mae Clwb Hwylio Dyfi wedi cyflwyno eu rhaglen rasio dros y tymor hwylio. Cynhelir cystadleuaeth tlws y Llywydd ar yr 22ain Mehefin yr un diwrnod a 'Blackrock Blast' PWC Gwynedd a'r bwriad yw cyrraedd yr harbwr am 1300 awr gan adael ddim hwyrach na 1400 awr. Byddwn yn trafod rheolaeth hyn yn fanwl gyda Llywydd y Clwb a'r Ysgrifennydd Hwylio.

Digwyddiad Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) 'Diwrnod ar y Cei' wedi ei drefnu ar gyfer 20fed Ebrill.

Mae’r Gwasanaeth wedi derbyn cais i gynnal digwyddiad Nofio yn Aberdyfi ar 6ed Gorffennaf gan Weswimrun Ltd. Nid ydym wedi cymeradwyo hyn eto gan fod angen rhagor o wybodaeth.


Approach To Aberdyfi Harbour: Buoyage Information
FOR ILLUSTRATION PURPOSES
NOT TO BE USED FOR NAVIGATION
N
W
E
S
Parc y Llethrau
Aberdyfi
Nantiesyn
Harbour Masters Office
YSM 4 Knots Buoy to passed with the buoy on the starboard side when entering the harbour and on the port side when leaving the harbour
YSM 4 Knots
Fl.Y.2s
Bar Buoy No1
Fl.G.5s
South Spit
Q.G
No 5
Fl.G.4s
No 7
Fl.G.2s
Aberdyfi Outer Buoy
Iso W.4
Outer Buoy Lat 52° 32.000’N Long 004°05.550’
Bar Buoy No 1 Currently off Station
Bar Buoy No2 Not on Station (Seasonal Mark)
No 3 Buoy ‘South Spit’ Currently off station
No 5 Buoy Lat 52° 32.198’N Long 004°04.053’W
No 7 Buoy Lat 52° 32.256’N Long 004°03.408’W
YSM 4 Knots Lat 52° 32.469’N Long 004°02.884’W
Aberdyfi Harbour
Phone 01654 767626
Mobile 07879 433148
VHF Ch 12 & 16
williamstockford@gwynedd.llyw.cymru
7th February 2019
Please contact the harbour office at the outer buoy for any updates to this chartlet
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL